Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

| Penderfyniad ar Gais | Application Decision |
| --- | --- |
| Ymweliad â safle a wnaed ar 7/3/22 | Site visit made on 7/3/22 |
| **gan Vicki Hirst BA(Anrh) PG Dip TP MA MRTPI** | **by Vicki Hirst BA (Hons) PG Dip TP MA MRTPI** |
| **Dyddiad: 28/04/2022** | **Date: 28/04/2022** |

**Cyf y cais: CAS-00059-S7V6G8**

**Cyfeiriad y safle: Tir Comin Uwch Gwyrfai, Y Fron, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd.**

**Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar y cais hwn i mi fel yr Arolygydd penodedig.**

- Gwneir y cais dyddiedig 17 Mawrth 2021 o dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006 (Deddf 2006) am ganiatâd i gynnal gwaith cyfyngedig ar dir comin.
- Mae'r cais yn ymwneud â Thir Comin Uwch Gwyrfai (CL 16) a'r Awdurdod Cofrestru Tir Comin yw Cyngor Gwynedd.
- Gwneir y cais gan Gymdeithas Bori Uwch Gwyrfai.
- Y gwaith a gynigir yw codi ffens.

---

**Penderfyniad**

1. Caniateir y cais a rhoddir caniatâd ar gyfer ffensio yn unol â'r cais dyddiedig 17 Mawrth 2021 a'r cynlluniau a gyflwynwyd gyda'r cais ac yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

    i) Dechreuir y gwaith heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

    *Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y gwaith yn dechrau o fewn cyfnod rhesymol o amser.*

    ii) Rhaid darparu'r gatiau yn y lleoliadau a ddangosir ar gynllun y Gwaith a Gynigir, a rhaid i'r gât ceffyl gydymffurfio â Safon Brydeinig 5709:2018.

    *Rheswm: Er mwyn galluogi mynediad priodol i farchogwyr a cherddwyr.*

**Materion Gweithdrefnol**

1. Ymwelais â'r safle ar fy mhen fy hun ar 7 Mawrth 2022.
2. Wrth benderfynu ar y cais hwn o dan Adran 38 Deddf 2006, rwyf wedi rhoi sylw i Ganllawiau Caniatâd Tir Comin Llywodraeth Cymru, mis Awst 2014, (y Canllawiau) a gyhoeddwyd fel canllawiau ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio flaenorol (sef Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru bellach) ac ymgeiswyr.

**Materion Rhagarweiniol**

3. Mae Tir Comin Uwch Gwyrfai wedi'i gofrestru fel tir comin (CL 16) ac mae'n ymestyn dros tua 1,012 hectar.  Mae 277 o gofnodion yn y gofrestr tiroedd comin, yn ymwneud yn

bennaf â phori ac yn cynnwys un ar gyfer hawliau pysgota. Mae'r ymgeisydd yn datgan bod 45 aelod yng nghymdeithas bori Uwch Gwyrfai ac mae 16 aelod gweithredol sy'n defnyddio'r tir comin ar gyfer pori stoc.

4. Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl mynediad i'r tir comin ar gyfer awyr iach ac ymarfer corff o dan Adran 193 Deddf Cyfraith Eiddo 1925. Nid yw'r tir comin yn ddarostyngedig i Orchymyn Cyfyngiadau a wnaed o dan Adran 193 neu Gynllun Rheoli a wnaed o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1899.

**Y Cais**

5. Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd i godi ffens 34 metr o hyd a fyddai'n cynnwys gât ceffyl pum troedfedd o led wedi'i gosod i Safon Brydeinig 5709:2018. Byddai'r gât yn agor y ddwy ffordd gyda cholfach sy'n cau ei hun, a darperir gât ychwanegol 12 troedfedd o led wrth ochr y gât ceffyl i ganiatáu mynediad i gerbydau i'r tir comin i aelodau'r gymdeithas bori. Byddai'r ffens yn fetr o uchder a byddai'n cynnwys rhwydi stoc gyda weiren bigog ddwbl ar y brig a'r gwaelod.

6. Gan y byddai'r gât yn cael ei gosod ar lwybr ceffylau, gwnaed cais i Gyngor Gwynedd am y gât ceffyl o dan adran 147 Deddf Priffyrdd 1980 a rhoddwyd caniatâd wedi hynny.

7. I gefnogi'r cais, dywedir bod angen y ffens i atal da byw rhag dianc oddi ar y tir comin i ffyrdd a phentrefi cyfagos.

**Gweithdrefnau'r Cais**

8. Mae'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer y cais hwn wedi'u nodi yn Rheoliadau Gwaith ar Dir Comin, etc. (Gweithdrefn) (Cymru) 2012. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i roi cyhoeddusrwydd i'r cais ac y rhoddir cyfle i sylwadau gael eu cyflwyno i'r awdurdod penderfynu (sef Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) gan unrhyw berson.

9. Yn unol â'r gofynion hyn, cyhoeddwyd hysbysiad o'r cynnig yn y Caernarfon Herald ar 24 Mawrth 2021. Yn ogystal, arddangoswyd hysbysiadau safle wrth y prif fynedfeydd i'r tir comin ac yn swyddfeydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhenrhyndeudraeth. Anfonwyd llythyrau at berchennog y tir, Cymdeithas Bori Uwch Gwyrfai, pob cominwr hysbys, Cyngor Plwyf Llandwrog, Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw a'r Gymdeithas Mannau Agored.

**Crynodeb o'r Sylwadau**

10. Mewn ymateb i gyhoeddi'r cais, derbyniwyd dau wrthwynebiad gan drigolion lleol. Mae un gwrthwynebiad yn ymwneud ag effaith weledol y ffens ac y byddai'n lleihau mwynhad o'r tir comin a'r llwybr ceffylau. Dywedir y byddai'n llethol ac yn cyfyngu ar ryddid i ddefnyddio'r tir comin ac yn lleihau mwynhad marchogwyr pe byddai'n rhaid iddynt agor a chau gât. Honnir na fyddai'r ffens yn rheoli'r defaid, ond yn hytrach yn eu gorfodi i mewn i'r pentref o gyfeiriadau eraill a byddai'n well pe bai'r ffens ymhellach i lawr y tir comin. Dywedir hefyd y byddai'r ffens o gymorth i borwr sy'n dymuno cael ail hawl tramwy i'w eiddo, ac nid yw'n glir a oes hawliau mynediad dros y llwybr ceffylau. Honnir bod cysylltiad y porwr hwn yn cynrychioli gwrthdaro buddiannau os yw'n aelod o'r pwyllgor.

11. Mae ail wrthwynebydd yn datgan na allai'r ffens aros pe bai'n cael ei chaniatáu, gan y byddai Adran 34 Deddf Traffig Ffyrdd 1988 yn gwahardd gosod gât gan y byddai'n rhwystro mynediad dros lwybr â hawliau mynediad i gerbydau. Mae'r gwrthwynebiad yn tynnu sylw at wyneb y llwybr ceffylau a'r lleihad yn ei led, ac at ddau achos blaenorol a benderfynwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn hyn o beth.

12. Nid yw'r Gymdeithas Mannau Agored yn gwrthwynebu, ond gofynnodd am fap cywir o'r gwaith sy'n dangos ffiniau'r tir comin, ac mae'r ymgeisydd wedi'i ddarparu bellach.

13. Mae Cadw yn fodlon na fyddai unrhyw effaith ar y Safle Treftadaeth y Byd. Mae nifer o adeiladau rhestredig o fewn 500 metr i'r ffens, ond ni fyddent yn weladwy, ac er y byddai'r terfynau wedi'u llunio o waliau cerrig yn hanesyddol, o ystyried bod llawer o ffensys gwifrau yn yr ardal, mae Cadw yn fodlon na fyddai unrhyw effaith ar safleoedd yr adeiladau rhestredig.

**Prif Faterion**

14. Wrth benderfynu ar y cais hwn am ganiatâd, mae'n ofynnol i mi ystyried, yn ôl Adran 39 Deddf 2006:

    a) Buddiannau personau sydd â hawliau mewn perthynas â'r tir neu sy'n ei feddiannu (ac yn benodol, personau sy'n arfer eu hawliau comin drosto);

    b) Buddiannau'r gymdogaeth;

    c) Budd y cyhoedd (gan gynnwys cadwraeth natur, cadwraeth y dirwedd, gwarchod hawliau mynediad cyhoeddus, a gwarchod gweddillion archaeolegol a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol); ac

    ch) Unrhyw fater arall yr ystyrir ei fod yn berthnasol.

15. Mae tir comin yn adnodd cyfyngedig ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi na ddylid ei ddatblygu'n ddiangen, ni ddylid atal na rwystro mynediad iddo'n ddiangen, ac y dylid annog ei reoli'n briodol.

**Rhesymau**

***Buddiannau personau sydd â hawliau mewn perthynas â'r tir***

16. Mae'r ymgeisydd yn datgan bod y ffens yn angenrheidiol i reoli da byw a'u hatal rhag dianc i'r pentrefi a'r ardal gyfagos ac achosi niwsans a risg i ddiogelwch ar y ffyrdd. Gwnaed y penderfyniad i wneud y cais gan y gymdeithas bori sy'n cynrychioli buddiannau'r sawl â hawliau sy'n defnyddio'r tir comin ac sydd, ar y cyfan, heb wrthwynebu'r cynnig.

17. O ran pryderon na fydd y cynnig yn atal da byw rhag dianc o'r tir comin, o'r dystiolaeth sydd ger fy mron, mae mesurau eraill wedi'u rhoi ar waith/yn cael eu rhoi ar waith i atal da byw rhag gadael y tir comin o leoliadau eraill. Beth bynnag, byddai'r cynnig sydd ger fy mron yn rhwystro llwybr pwysig o ran dianc o'r rhan hon o'r tir comin.

18. Byddai'r ffens a gynigir yn golygu bod y rhan hon o'r tir comin yn cael ei chadw ar gyfer pori ac yn sicrhau bod stoc yn ddiogel. Nodaf fod porwyr, ar hyn o bryd, yn gyndyn i ddefnyddio'r tir comin oherwydd y risg y bydd stoc yn dianc, a byddai'r cynnig yn galluogi'r porwyr i arfer eu hawliau pori heb y risg hon. Byddai'r ffens yn cael ei lleoli mewn man lle mae'r tir comin yn culhau, ac ni fyddai'n cyfyngu'n ormodol ar yr ardal sydd ar gael ar gyfer pori. Byddai'r gwaith o godi'r ffens yn waith byrdymor ac ni fyddai'n ymyrryd â defnydd y porwyr o'r tir comin yn ystod cyfnod y gwaith.

19. Mae gan y cominwyr hawliau mynediad i'r tir comin. Er y byddai'r cynnig yn rhwystro mynediad rhydd, byddai darparu gât mynediad 12 troedfedd o led (a gât ceffyl 5 troedfedd o led) yn parhau i alluogi mynediad i'r sawl sydd â hawliau i'r tir comin.

20. Yn yr un modd, mewn perthynas â hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio'r tir comin ar gyfer awyr iach ac ymarfer corff, byddai mynediad ar gael trwy gât newydd a fyddai hefyd wedi'i lleoli ar lwybr ceffylau cyhoeddus. Byddai'r gât yn cael ei darparu i'r Safon Brydeinig berthnasol, gan agor y ddwy ffordd, ac â mecanwaith cau ei hun mewn 8 eiliad. Er y byddai ffens a gât yn ymyrryd â mynediad agored i'r tir comin, byddai'r ffens yn rhwystro mynediad rhydd dros ddarn byr iawn o'r tir comin, a byddai mynediad yn parhau i fod ar

gael drwy'r gât newydd. Fel y cyfryw, rwy'n fodlon na fyddai'r cynnig yn ymyrryd yn annerbyniol â mwynhad y cyhoedd o'r tir comin yn ei gyfanrwydd.

21. Yn ôl fy asesiad, ni fyddai'r gwaith a gynigir yn ymyrryd yn annerbyniol â buddiannau'r sawl sydd â hawliau mewn perthynas â'r tir.

***Buddiannau'r gymdogaeth***

22. Nid oes unrhyw ddiffiniad o gymdogaeth yn Neddf 2006. Mae'r Canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried a yw'r gwaith yn golygu y bydd pobl leol yn cael eu hatal rhag defnyddio'r tir comin yn eu ffordd arferol. Ar ben hynny, mae'r Canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried a fyddai'r gwaith yn ymyrryd â defnydd a mwynhad y tir yn ei gyfanrwydd yn y dyfodol.

23. Mae'r tir comin yn hygyrch i'r cyhoedd o dan Adran 193 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r llain o dir dan sylw yn darparu cyswllt hawliau tramwy eraill a rhannau eraill o'r tir comin. Mae'n agos at nifer o bentrefi bach ac yn debygol o gael ei defnyddio gan ddefnyddwyr hamdden o'r ardal leol a gan bobl sy'n ymweld â'r ardal.

24. Byddai'r ffens yn ymestyn am bellter cymharol fyr o tua 34 metr. Fel y nodir uchod, byddai gatiau'n cael eu darparu i alluogi mynediad i'r cyhoedd drwy'r ffens ac i'r tir comin o amgylch. Byddai'r ffens a'r gât yn atal defnydd rhydd o'r tir comin am bellter byr, ac felly'n cael effaith fach iawn ar y ffordd y mae pobl wedi arfer defnyddio'r tir comin. Serch hynny, nid wyf o'r farn y byddai hyn yn amharu ar ddefnydd a mwynhad y tir yn ei gyfanrwydd yn y dyfodol.

25. Yn ogystal, byddai'r ffens yn fanteisiol wrth atal stoc rhag crwydro o'r rhan hon o'r tir comin i'r gymdogaeth leol ac achosi niwsans a pherygl ar y ffyrdd. Rwyf o'r farn bod y manteision hyn i'r gymdogaeth yn gorbwyso'r effaith negyddol fach iawn o ran mynediad cyfyngedig i'r rhan hon o'r tir comin a'r angen am fynediad drwy gât.

26. Deuaf i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn effeithio'n annerbyniol ar fuddiannau'r gymdogaeth.

***Budd y cyhoedd***

<u>*Cadwraeth Natur*</u>

27. Nid yw'r tir wedi'i leoli o fewn ardal a ddynodir oherwydd ei buddiannau cadwraeth natur ac nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth ger fy mron y byddai'r cynnig yn effeithio ar fuddiannau o'r fath. Nodaf hefyd fod pori'r tir comin yn cynorthwyo rheolaeth y tir comin o ran cynefinoedd. Rwy'n fodlon na fyddai'r gwaith yn niweidio budd y cyhoedd o ran cadwraeth natur.

<u>*Cadwraeth y Dirwedd*</u>

28. O ran yr effaith ar y dirwedd, nid yw'r safle o fewn ardal a ddynodwyd oherwydd ei buddiannau tirwedd. Serch hynny, mae'r tir comin yn ddarn deniadol o dir gyda golygfeydd eang dros y cefn gwlad o amgylch.

29. Nodais ar fy ymweliad â'r safle fod y tir comin ehangach yn y cyffiniau wedi'i nodweddu gan nifer o ffensys ac ardaloedd caeedig tebyg. Byddai'r ffens o ddyluniad nodweddiadol sy'n atal stoc ac wedi'i lleoli ar ochr y bryn. Er y byddai'n weladwy o olygfannau lleol, ni fyddai'n torri'r gorwel nac yn amharu ar olygfeydd ehangach ar draws y tir comin. Rwy'n fodlon na fyddai'r ffens yn niweidiol i gymeriad y dirwedd.

<u>*Gwarchod gweddillion archaeolegol a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol*</u>

30. Nid yw Cadw wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig o ran ei effaith ar weddillion archeolegol a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol. Ar sail y dystiolaeth sydd ger fy

mron, nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu y byddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar fuddiannau o'r fath.

*Gwarchod hawliau mynediad cyhoeddus*

31. Byddai'r cynnig yn cynnal mynediad cyhoeddus i'r ardal, er yn cyfyngu ychydig ar fynediad agored ar draws y rhan fechan hon o'r tir comin. O ystyried y bydd y ffens yn ymestyn dros bellter byr iawn, rwyf o'r farn bod yr effaith hon yn fach iawn.

32. Deuaf i'r casgliad na fyddai'r gwaith yn effeithio'n annerbyniol ar fudd y cyhoedd.

***Ystyriaethau Perthnasol Eraill***

33. Nodaf fod yr ymgeisydd wedi ystyried a ellid gweithredu opsiynau eraill i reoli stoc sy'n defnyddio'r tir comin, gan gynnwys lleoliadau eraill ar gyfer gatiau a defnyddio gridiau gwartheg. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno â'r ymgeisydd y byddai lleoliadau eraill ar gyfer gatiau yn rhwystro'r porwyr rhag defnyddio'r tir comin i raddau helaethach na'r cynnig presennol, ac y byddai darparu gridiau gwartheg yn anymarferol o ystyried y topograffi.

34. Nodaf y cyngor yn y Canllawiau, wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd, bod angen sefydlu a yw'r gwaith yn gyson â'r defnydd o'r tir fel tir comin. Rwy'n fodlon y byddai'r gwaith yn gyson â'r defnydd o'r tir fel tir comin o ran mynediad cyhoeddus a phori.

35. Rwyf wedi ystyried y cyngor yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014 "Defnyddio Amodau i Reoli Datblygu" wrth ystyried yr angen am amodau. Mae amod yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith datblygu ddechrau o fewn 5 mlynedd yn rhesymol ac yn angenrheidiol, ac mae'r gofyniad i ddarparu'r gât yn unol â BS 5709:2018 yn angenrheidiol er mwyn galluogi mynediad priodol i gerddwyr a marchogwyr.

**Casgliad**

36. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill a godwyd. Nid yw materion sy'n ymwneud â hawl mynediad i gerbydau o dan ddeddfwriaeth arall, unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n deillio o gysylltiad â'r Gymdeithas Bori, a materion yn ymwneud â mynediad preifat, yn berthnasol wrth i mi ystyried y cais hwn a wnaed o dan Ddeddf 2006. Nid oes pryderon ger fy mron mewn perthynas â gwaith anawdurdodedig honedig arall ar y tir comin (ni waeth beth fo cysylltiad yr Arolygiaeth Gynllunio ag achosion blaenorol) a dylid cyfeirio'r rhain at y Cyngor.

37. Ni welaf unrhyw faterion sy'n fy arwain at gasgliad ac eithrio bod y cynnig yn dderbyniol. Byddai'r gwaith yn cydymffurfio â'r amcanion polisi a nodir yn y Canllawiau. Am y rhesymau a roddir uchod, rwy'n caniatáu'r cais ac yn rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith a gynigir, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir ym mharagraff 1 y penderfyniad hwn.

38. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adran 3 ac adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriaf fod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 8 y Ddeddf honno.

*VK Hirst*

AROLYGYDD